

## Canllawiau cerdyn gweithredu

- Dylid defnyddio'r cerdyn gweithredu hwn ar y cyd â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru.
- Mae'n tynnu sylw at gamau gweithredu pwysig i reoli haint COVID-19 yn y gweithle.

## Gosod y cyd-destun

- Lleoliadau Gwarchod Plant: mae cynnal asesiad risg Coronafeirws yn rhagofyniad i'r canllawiau hyn a dylid ymgynghori â chynorthwywyr gwarchod plant ac unrhyw gynrychiolwyr undebau.
- Rhaid i bob lleoliad gynnal asesiad risg cyn ailagor neu ehangu ei ddarpariaeth a rhaid ailgynnal yr asesiad bob wythnos wedyn. Dylai'r asesiad roi sylw i'r risgiau coronafeirws a'u hadolygu os bydd unrhyw newid yn Lefel Rhybudd yr ardal.
- Dylid mabwysiadu'r egwyddorion 'hierarchaeth rheolaethau' bob tro wrth reoli COVID-19 yn eich.

## Sut mae cadw COVID-19 allan o fy ngweithle?

Yn unol â'r canllawiau 'gweithio'n ddiogel', mae'r camau gweithredu allweddol gallwch chi eu cymryd i fod mor ddiogel â phosibl o ran Covid wedi cael eu hamlinellu isod:

1. Os bydd gan warchodwyr plant, cynorthwywyr, aelodau o'u haelwyd neu blant symptomau, os ydyn nhw wedi cael canlyniad positif neu os ydyn nhw wedi cael cyswllt agos neu'n rhannu aelwyd â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif, dydyn nhw ddim yn cael dod i'r lleoliad gwarchod plant. Rhaid iddyn nhw ddilyn y canllawiau hunanynysu. Rhaid monitro hyn yn drylwyr.
2. Cadwch eich trafniadau stafio mor gyson ag y bo modd. Gellir cynnwys myfyrwyr neu bobl ar brofiad gwaith fel 'staff'.
3. Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n hunanynysu ac yn cael canlyniad prawf negatif gwblhau'r 10 diwrnod o gyfnod hunanynysu. Ddylai'r rhai sy'n cael canlyniad negatif **DDIM** dychwelyd i'r gwaith yn gynnar.
4. Dim ond ymwelwyr hanfodol ddylai ddod i'r lleoliad. Cadwch at y rheolau pellter Cymdeithasol yn y lleoliad. Anogwch y plant i gerdded neu seiclo os yn bosibl ac osgowch drafnidiaeth gyhoeddus yn yr oriau brig.
5. Ystyriwch roi marciau tu allan i helpu rhieni neu ofalwyr gadw pellter 2m wrth ollwng a casglu eu plant.
6. Dylai pob gwarchodwr plant gadw manylion cyswllt cywir a chadw cofnod o bawb sy'n dod i'r lleoliad, er mwyn gallui olrhain pobl os bydd achosion coronafeirws. Sicrhewch fod y plant yn cymysgu yn yr un grwpiau yn gyson, gan gadw at y cymarebau NMS.
7. Cadwch grwpiau o blant ar wahân grwpiau eraill lle bo'n bosibl.
8. Dim rhannu bwyd, diod, offer, cyfarpar na theganau os yn bosibl.
9. Ewch i'r awyr agored ar gyfer cymaint o weithgareddau â phosibl.
10. Dilynwch y Canllawiau Atal a Rheoli Haint mewn Lleoliadau Gofal Plant, ee glanhau a deiheintio trylwyr, trefniadau hylendid personol effeithiol, yn enwedig cael staff a phlant i olchi dwylo'n aml.
11. Rhaid awyru'r lleoliad gofal plant yn ddigonol.
12. Gofynnwch i weithwyr a chontractwyr ddweud wrthyh chi'n uniongyrchol am unrhyw ganlyniadau positif.

## Beth ddylwn ei wneud pan fydd gweithiwr neu gontractwr yn cael canlyniad positif am COVID-19?

1. Mae sawl ffodd ichi gael gwybod bod achos a gadarnhawyd yn eich safle: gan staff, contractwr, eichcanolfan feddygol, gwasanaeth iechyd yr amgylchedd neu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
2. Pan fyddwch yn cael gwybod am achos positif, bydd angen ichi ddod o hyd i unrhyw gydweithwyr a gafodd gyswllt agos â'r unigolyn positif yn ystod y 48 awr cyn i'r symptomau ymddangos. Rhaid cadw'r wybodaeth hon ar gyfer y broses Profi, Olrhain a Diogelu a byddan nhw'n gofyn amdani.
3. Ar ôl dod o hyd i'r cysylltiadau hyn bydd angen iddyn nhw gael gwybod am y risg a rhaid eu cynghori a'u cefnogi i hunanynysu am 10 diwrnod.
4. Ni ddylai cyflogwyr fynnu cael canlyniad prawf negatif cyn y caiff gweithiwr a fu'n hunanynysu dychwelyd i'r gwaith. Caiff staff dychwelyd i'r gwaith ar ôl hunanynysu am 10 diwrnod.
5. Mae hi'n bwysig bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu a bod y camau'n cael eu cymryd cyn cysylltu â Profi, Olrhain a Diogelu am y tro cyntaf.

## Sut mae atal yr haint rhag lledaenu yn fy musnes?

Os bydd 2 achos neu fwy yn eich gweithle (gan gynnwys contractwyr ac ymwelwyr) yn cael canlyniad positif am COVID-19 mewn cyfnod o 14 diwrnod, bydd angen ichi ystyried a oes risg gynhenid yn y gweithle. Efallai byddwch chi eisiau:

1. Adolygu eich asesiad risg Coronafeirws, gan gynnwys y mesurau sydd gennych eisoes yn y lleoliad, niferoedd a chysondeb presenoldeb y plant sy'n mynychu, m a'r mesurau atal a rheoli haint. Bydd yn gollbwysig cyfathrebu gyda rhieni am unrhyw newid yn y cynllun, gan roi cyfle i atgyfnerthu arferion da a sicrhau bod pawb yn deal arwyddion a symptomau COVID-19 ac yn gwybod beth u'w wneud hy hunanynysu a chael prawf.
2. Bydd unrhyw glwstwr yn y safle yn golygu bod yr awdurdod lleol yn gweithredu. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn gallu eich cefnogi a'ch cynghori ar y camau eraill gallwch chi eu cymryd i liniaru'r risgiau sy'n parhau. Efallai byddwch chi eisiau profi'r holl staff i ddod o hyd i unrhyw unigolion asymptomatig.

Dolenni at ganllawiau allweddol:

[www.hse.gov.uk/coronavirus/assets/docs/risk-assessment.pdf](http://www.hse.gov.uk/coronavirus/assets/docs/risk-assessment.pdf)

[www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/risk-assessment.htm](http://www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/risk-assessment.htm)

[gov.wales/protective-measures-childcare-settings-keep-childcare-safe](http://gov.wales/protective-measures-childcare-settings-keep-childcare-safe)

